



LLEISIAU DYFFRYN DULAS

<https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/>

GLANLLYN

Ar Fehefin 16 aeth plant blynyddoedd 3 i 6 a phlant Ysgol Pennal i wersyll Glan Llyn i aros noson a chael llawer o hwyl a sbri yn gwneud wahanol weithgareddau yn yr awyr agored.

Roeddem yn lwcus iawn o'r tywydd eto eleni, roedd yn berffaith i gael dowcio yn y llyn! Cawson ganwio, padl-fyrddio, dringo, cwrs rhaffau uchel ac adeiladu rafft. Dyma beth oedd gan rai o'r plant i'w ddweud am y profiadau gwych:

"Roeddwn i wrth fy modd yn dringo fynyr wal. Dwi fel arfer yn ofnus o fynd i fynyr'n uchel a dwi mod falch fy mod wedi gallu llwyddo i gyrraedd y top eleni!" Lili Davies

"Fy hoff ran i oedd rhedeg ar draws y padlfyrddau enfawr a neidio mewn i'r llyn. Roedd gwigo'r wet suits yn anodd ond werth o i gael hwyl yn y llyn."

Talitiu Francois

Ar y ffordd adref, gan ein bod wedi bod yn astudio'r llyfr 'Ta Ta Tryweryn' gan Gwenno Hughes cawson 'detour' adref heibio llyn Celyn. Roedd llawer o'r disgyblion dan deimlad wrth weld y llyn ble oedd unwaith bentref byrlymus.

"Roedd yn drist iawn bod Lerpwl wedi boddi'r pentref, roeddwn yn meddwl am yr holl blant oedd wedi gorfod symud i ffwrdd i fyw oddi wrth eu ffrindiau gorau." Anya Crockford.



COEDTIR ANIAN

Mae disgyblion Dosbarth 7-11 oed wedi bod yn rhan o brosiect yn gweithio gyda Coetir Anian (elusen coetir ac adfer cynefinoedd lleol) i ddysgu am natur a'r amgylchedd. Hanner tymor yma, mae arlunydd yn gweithio gyda'r disgyblion ar brosiect creadigol am goed. Mae'r disgyblion hynaf wedi bod ar drip i Fwlch Corog (safle Coetir Anian) am ddiwrnod er mwyn casglu syniadau ac ysbrydoliaeth. Yn ystod y dydd bu'r disgyblion yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Roeddynt wrth eu bodde yn casglu coed a'u llosgi er mwyn golosg. Cawsant brofiad o weithio gyda chlai i wneud lluniau natur, ac argraffu llun ar ol hela blodau gwyllt. Roedd rhaid datrys problem drwy hela dwr mewn cwpan, ond nid o'r afon!! Yna roedd rhaid creu brws efo pethe natur a chreu paent a defnyddio popeth i wneud llun ar gerdyn.



CELF COEDTIR ANIAN

Daeth Clarissa a Teia yn ôl i'r ysgol i wneud gweithdy celf yn dilyn ein ymweliad i'r goedwig. Roedd angen i bawb ddylunio mwgwd gan arddangos wahanol nodweddion o amrywiol greaduriaid yn gyntaf, yna mynd ati gyda partner i roi mod roc ar ein wynebau. Roedd RHAID rhoi 'vasaline' ar hyd y wyneb cyn rhoi'r mod roc ymlaen rhag ofn iddo fynd yn sownd ar ein croen. Roedd hyn yn llawer o hwyl ac roedd y dwr oer ar ein wynebau yn braf yn ystod y tywydd poeth! Ar ôl iddo sychu roeddem yn gallu ychwanegu nodweddion gwahanol, roedd rhai yn ychwanegu teimlyddion, lymphiau, pîg neu hyd yn oed adenydd. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr a diolch i Clarissa a Teia am ddod atom unwaith eto.



RYGBI TAG



Bu tim o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cystadlu yn Nhwrnament Rygbi Tag yr Urdd yn y Bala yn ddiweddar. Chwaraeodd pawb yn dda iawn er gwaetha'r tywydd, a roedd pawb wedi mwynhau.



ARCHIFYDY



Dydd Llun, 8 Mehefin 2026, ymwelodd Gwyn Llewelyn Ellis o Archifydy Gwynedd â'r ysgol fel rhan o brosiect LleCHI LleNI. Cafodd y disgyblion gyflwyniad diddorol ac addysgiadol ar "Y Diwydiant Llechi yng Ngwynedd", gan roi dealltwriaeth ddyfnach iddynt o hanes a phwysigrwydd y diwydiant yn ein hardal

LLECHI LLENI

Cafodd disgyblion brofiad unigryw a chyffrous yn ystod mis Mehefin wrth gymryd rhan mewn gweithdy tri diwrnod fel rhan o brosiect LleCHI LleNI. Daeth Ffion Meleri Gwyn i gyflwyno Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, gan rannu hanes cyfoethog chwareli'r ardal. Ysbrydolwyd y disgyblion i greu eu golygfeydd eu hunain ar gyfer animeiddiad stop motion. Yn ystod yr ymweliad, cyflwynodd yr arbenigwr rheilffyrdd Martyn Hall ei fodelau manwl o drenau a wagenni lleol, gan roi cipolwg difyr ar y dulliau cludo a ddefnyddiwyd gan y chwarelwyr. Ar yr ail ddiwrnod, bu Mat o gwmni MSparc yn arwain sesiynau animeiddio, gan roi cyfle i'r disgyblion droi eu gwaith celf yn straeon byw a chreadigol.



CRICED YR URDD

Aeth tîm o'r Ffederasiwn i Dywyn i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Criced yr Urdd am y tro cyntaf eleni. Roedd y diwrnod yn gyfle ardderchog i'r disgyblion ddefnyddio'r sgiliau roeddent wedi'u datblygu yn ystod eu sesiynau Addysg Gorfforol.

Mwynhaodd y plant y profiad yn fawr, gan ddangos cydweithio effeithiol. Roedd yn ddiwrnod gwerthfawr a chofiadwy i bawb a fu'n rhan ohono.




BAG2SCHOOL

156kg



DIWRNOD RHIFEDD CENDLAETHOL

Ar Ddydd Iau, Mai 21ain, dathlodd y plant Ddiwrnod Rhifedd Cenedlaethol. Fe wnaethon nhw ail-greu eu cymeriadau Numicon anferth sy'n ein helpu i wahaniaethu rhwng odrifau ac eilrifau, yn ogystal â mwynhau llawer o weithgareddau rhif ymarferol drwy'r dydd. "Roedd o'n lot o hwyl. Roedd Eilir Eilrif bron yr un maint â fi!" meddai Max. "Roedd o'n dda a roeddwn yn hoffi defnyddio'r siapiau Numicon." meddai Charlie. "Roedd Tod Od yn ddoniol ac yn ENFAWR!" meddai Efa



DEINOSORIAID

Yn ystod ein gwaith dosbarth, bu'r plant yn creu byd bach i'r deinosoriaid. Fe wnaethon nhw greu adwaith cemegol i wneud i'r llosgfynydd 'ffrwydro', gan greu golygfa gyffrous, a chawson ni lawer o waw's a chwerthin! "Roedd o'n ffantastig, mor realistig ac yn llifo'n wych." meddai Charlie. "Roedd o'n dda gweld y llosgfynydd yn ffrwydro." meddai Efa. "Roedd o'n lot o hwyl gweld y lafa'n llifo." meddai Chloe.



Diwedd tymor bu plant dosbarth Mrs Rowlands yn gwneud cacen ac addurno cacen deinosor. Cafodd pawb gymryd tro i helpu. Roedd pawb wrth eu boddau diwedd dydd yn cael darn o'r gacen flasus. Am gacen hyfryd! Diolch Mrs Rowlands

BEICS CORRIS

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn cael gwersi beicio yn ystod y tymor diwethaf. Cafwyd sesiwn ar iard yr ysgol a sesiwn yn maes parcio y Canolfan Grefftau.

Mae'r sgiliau yma yn bwysig iawn ar gyfer diogelwch y ffordd.



RASIO'R TREN



Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am drefnu noson Rasio'r Tren i godi arian i Ysgol Dyffryn Dulas. Roedd y plant wrth eu boddau yn rasio'r tren a barbeciw ar y diwedd.





MABOLGAMPAU

Mwynhaodd disgyblion yr ysgol ddiwrnod bendigedig yn ein mabolgampau blynyddol yn ddiweddar. Roedd yr haul yn tywynnu drwy gydol y dydd wrth i'r plant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a rasys. Daeth nifer fawr o rieni, neiniau a theidiau, ac aelodau eraill o'r teulu a'r gymuned i gefnogi'r cystadleuwyr, gan greu awyrgylch arbennig a chyfeillgar. Roedd y fan hufen iâ yn boblogaidd iawn ar ddiwedd y dydd ac yn ffordd wych o ddathlu llwyddiannau'r dydd. Roedd pawb wedi cystadlu'n frwd ac wedi dangos ysbryd chwarae teg rhagorol. Cafwyd llawer o hwyl a chyffro wrth i'r plant ymdrechu i roi o'u gorau ym mhob ras. Dywedodd Max: "Ges i lawer o sticeri am ennill y rasys. Roedd o'n lot o hwyl!" Meddai Chloe: "Roedd o'n grêt. Rhedais yn gyflym iawn ac roedd fy nhad yn gwenu." Ychwanegodd Evie E: "Roeddwn i mor gyffrous am y diwrnod. Fy hoff beth oedd y ras wy ar lwy. Cefais i'r safle cyntaf ac mae fy sticer ar fy mhotel ddŵr." Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol ac yn un i'w gofio gan bawb.

SIOE GERDD

Ar ddydd Gwener 19eg o Fehefin, aeth disgyblion Blwyddyn 3 i 6 ar ymweliad i Ganolfan Celfyddydau Aberystwyth. Cafwyd profiad pleserus wrth wyllo'r sioe gerdd boblogaidd Miss Prydderch, gyda pherfformiad bywiog a llawn cerddoriaeth yn swyno'r gynulleidfa. Mwynhaodd pawb y diwrnod yn fawr ac roedd yn brofiad cofiadwy i'r disgyblion



ATHLETAU'R URDD



Ar nos Fawrth Gorffennaf y 7ed
aeth criw bach i gystadlu yn
athletau dalgylch Meirionnydd yn
Harlech. Roedd yn noson
lwyddiannus iawn i'r plant.
Marc 1af Rhedeg 80m
Otis 1af Taflu Gwaywffon.
Elain 2il Rhedeg Rhedeg 80m
Gruff 2il Taflu 'Shot put'
A da iawn Grace ac Archie am
gynrychioli'r ysgol mor frwd!



MEHEFIN A GORFFENNAF 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

TRIP YSGOL



Aethom i Gelli Gyffwrdd ar ein trip blynyddol eleni. Roedd y tywydd yn braf, gan wneud y profiad yn un pleserus i bawb. Cafodd y plant gyfle i fwynhau nifer o weithgareddau, chwarae gyda'u ffrindiau a chreu atgofion hapus. Roedd llawer o gyffro drwy gydol y dydd, gyda phawb yn awyddus i roi cynnig ar y gwahanol atyniadau. Dyma beth oedd gan rai o'r disgyblion i'w ddweud am eu diwrnod: Dywedodd Elis: "Y peth gorau oedd cael dewis tegan o'r siop." Meddai Charlie: "Cefais hwyl yn mynd ar y daith mewn cwch. Roedd hi'n ymlaciol iawn ac yn gyffrous ar yr un pryd." Ychwanegodd Kane: "Y rhan orau oedd y llithren werdd fawr - roedd y teiar yn mynd mor gyflym!" Meddai Pegi: "Y rhan orau oedd cael teithio ar y bws MAWR!" Roedd y daith yn llwyddiant mawr ac yn ddiwrnod i'w gofio gan bawb. Roedd gweld disgyblion y ddwy ysgol yn chwarae gyda'i gilydd, yn chwerthin ac yn mwynhau eu hunain yn gwneud y diwrnod yn un arbennig iawn.



FFARWELIO BLWYDDYN 6

Wrth i'r flwyddyn ysgol ddod i ben, rydym yn ffarwelio â thri disgybl. Dymunwn bob llwyddiant i Otis a Grace wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Tywyn, ac i Talitau fydd yn cychwyn yn Ysgol Bro Hyddgen ym mis Medi. Byddwn yn gweld eu heisiau'n fawr ac yn ddiolchgar am y cyfraniad gwerthfawr y maent wedi'i wneud i fywyd yr ysgol. Pob lwc i'r tri ar eu teithiau newydd.



Cawsom hwyl gyda
gynau dwr yn y
prynhawn!

